

RHYBUDD o Benderfyniadau'r cyfarfod rhithiol o Gyfarfod Arbennig o Gyngor Sir Ynys Môn a gafwyd ar 11 Chwefror, 2022.

Yn Bresennol : Y Cyngorydd Glyn Haynes (Cadeirydd)
Y Cyngorydd Dafydd Roberts (Is-gadeirydd)

Y Cyngorwyr R Dew, John Griffith, Richard Griffiths, K P Hughes, T Ll Hughes MBE, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones, Carwyn Jones, Richard Owain Jones, G O Jones, Alun W Mummery, Bryan Owen, R G Parry OBE FRAGS, Gary Pritchard, Dylan Rees, Alun Roberts, Dafydd Roberts (Is-Gadeirydd/Vice-Chair), Margaret Murley Roberts, P S Rogers, Dafydd Rhys Thomas a Ieuan Williams

Ymddiheuriadau: Y Cyngorwyr Eric Wyn Jones, R Meirion Jones, J A Roberts a Robin Williams

Hefyd yn Bresennol: Dim

(12.30 o'r gloch yf - 1.20 o'r gloch yf)

RHIF YR EITEM A'R PWNC	1. Datganiad o Ddiddordeb
PENDERFYNIAD	Bu'r Cyngorydd Dylan Rees datgan diddordeb personol yn Eitem 3 - Canolfan Addysg y Bont - Y to. Yn dilyn derbyn cyngor cyfreithiol roedd modd i'r Cyngorydd Rees gymryd rhan a bwrw pleidlais mewn perthynas â'r eitem hon.

EITEM GYFRINACHOL

RHIF YR EITEM A'R PWNC	3. To Canolfan Addysg y Bont
PENDERFYNIAD	<p>PENDERFYNWYD yn unfrydol y dylid:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • rhyddhau swm ychwanegol o £1.5 miliwn o falansau cyffredinol y Cyngor • awdurdodi'r Pennaeth Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo i wneud y trefniadau angenrheidiol ar gyfer ymgymryd â'r gwaith atgyweirio a dyfarnu contract yn uniongyrchol i'r cyflenwr arbenigol heb yr oedi a'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig â dilyn proses gaffael lawn. • awdurdodi'r Pennaeth Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo, mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 a'r Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro, i barhau â hawliad i adennill costau'r gwaith atgyweirio a'r holl gostau cysylltiedig eraill gan unrhyw barti y bernir eu bod yn atebol am adeiladwaith diffygiol y to.